



Cyngor Gwynedd

Cynllun Diogelwch Morwrol


2026-2029

Rhagair a Datganiad Ymrwymiad

Fel rhan o'i ymrwymiad i'r PMSC, mae Cyngor Gwynedd yn cyhoeddi Cynllun Diogelwch Morwrol ar gyfer llywio a monitro perfformiad diogelwch morwrol rhwng 2026 a 2029. Mae'r Cynllun Diogelwch Morwrol hwn yn un rhan o System Rheoli Diogelwch Morwrol gynhwysfawr (MSMS) sy'n cefnogi Cyngor Gwynedd sy'n gwella diogelwch morwrol yn barhaus.

Mae'r Cynllun Diogelwch Morwrol yn ymrwymo Cyngor Gwynedd i gyfrifoldebau cyfreithiol, safonau gweithredol, gan sicrhau bod gweithgareddau morwrol yn ein harbyrau yn cael eu rheoli'n ddiogel, yn dryloyw, ac yn unol â phwerau statudol a pholisïau morwrol.

Llofnodwyd ar ran Cyngor Gwynedd gan



Cyng Richard Medwyn Hughes

Deilydd Dyletswydd PMSC

1. Cyflwyniad

Mae'r Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morwrol (PMSC) yn gosod y safon genedlaethol ar gyfer diogelwch morwrol ym mhorthladdoedd a harbyrau y DU. Mae'n darparu fframwaith lle mae awdurdodau harbwr yn cael eu dal yn atebol am y pwerau a'r dyletswyddau cyfreithiol y maent yn eu gweithredu er mwyn sicrhau mordwyo diogel a gweithgareddau morwrol. Cefnogir y Cod gan '[Canllaw i arfer da ar gyfleusterau porthladdoedd a morol](#)'.

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Harbwr Statudol ar gyfer Harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi a'r Awdurdod Harbwr Cymwys ar gyfer Harbwr Porthmadog drwy'r Deddfau a'r Gorchmynion Harbwr perthnasol:

1. Harbwr Pwllheli – Deddf Harbwr Pwllheli (Diwygiedig) 1993, Deddf Harbwr Pwllheli 1983
2. Harbwr Porthmadog – Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998
3. Harbwr Abermaw – Deddf Cyngor Dosbarth Trefol Abermaw 1929
4. Harbwr Aberdyfi – Gorchymyn Grymuso Harbwr Aberdyfi 1972

Cyngor Gwynedd hefyd yw'r Awdurdod Goleudy Lleol (LLA) mewn perthynas â chymhorthion mordwyo yn rhinwedd Adran 193 o Ddeddf Llongau Masnach 1995. Gan eu bod yn eiddo i'r Cyngor ac yn cael eu gweithredu ganddo, mae'r harbyrau yn Awdurdodau Harbwr Bwrdeistrefol.

2. Fframwaith Diogelwch Morwrol

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisiâu, gweithdrefnau, canllawiau gweithredol a chodau i gefnogi rheoli a rheoleiddio gweithrediadau morol. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. System Diogelwch a Rheoli Morol (MSMS)
2. [Rheoliadau Llongau Pŵer ar gyfer Harbwrau ac Arfordir Gwynedd](#)
3. [Cod Morol \(canllawiau bywyd gwyllt defnyddwyr morol\)](#)
4. [Hysbysiad Lleol i Forwyr](#)
5. Cynlluniau Rheoli Gwastraff
6. Cynlluniau Wrth Gefn Gollyngiadau Olew
7. Cynlluniau Parodrwydd ac Ymateb i Argyfwng
8. Polisi Hyfforddiant

3. Rheoli a Gweithrediadau Morwrol

Mae'r Cynllun Diogelwch Morwrol yn ymrwymo Cyngor Gwynedd i reoli a rheoleiddio gweithrediadau morwrol yn unol â'i bwerau a'i gyfrifoldebau statudol. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod bod ganddo ddyletswydd cyfreithiol i warchod Harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi gan sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio,

a dyletswydd gofal rhesymol bod yr harbwr yn parhau i fod mewn cyflwr addas i gychod eu defnyddio'n ddiogel.

Mae Cyngor Gwynedd, fel awdurdod harbwr, yn ceisio darparu ei wasanaethau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn wrthrychol, gan sicrhau diogelwch holl ddefnyddwyr yr harbwr a diogelu amgylchedd naturiol ein harbwr. Mae ymrwymadau allweddol yn cynnwys:

1. Hwyluso symudiad diogel cychod.
2. Cadw golwg wylidwrs am unrhyw newidiadau yn yr harbwr a chadw data hydrograffig gyda diweddariadau yn cael eu trosglwyddo i Swyddfa Hydrograffig y DU.
3. Fel yr Awdurdod Goleudy Lleol, cynnal cymhorthion mordwyo a symud neu adnewyddu'r rhain fel y bo'n briodol, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Goleudy Cyffredinol.
4. Rheoleiddio gweithgareddau trwy is-ddeddfau, cyfarwyddiadau, a pholisïau gorfodi.
5. Ymchwilio i ddigwyddiadau a methiannau agos, a chydymffurfio â gofynion adrodd gorfodol.
6. Dyrannu adnoddau i gefnogi gweithrediadau, hyfforddiant, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
7. Cynnal archwiliadau blynyddol ac adolygiadau cyfnodol o'r MSMS.

Mae trosolwg o strwythur, rheolaeth a dogfennaeth Cyngor Gwynedd yn yr MSMS sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun hwn. Mae archwiliadau blynyddol o'r MSMS yn cael eu cynnal yn fewnol ac yn allanol bob tair blynedd gan y Person Dynodedig.

Mae Cyngor Gwynedd yn hyrwyddo diwylliant diogelwch cadarnhaol ac MSMS sy'n seiliedig ar risg. Mae'r pedwar harbwr yn adolygu risgiau yn gyson ac yn rhagweithiol yn yr harbwr. Mae asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru mewn ymateb i newidiadau gweithredol, risgiau sy'n dod i'r amlwg neu wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau. Yn unol â'r PMSC, mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl risgiau morwrol yn oddefol a'u lleihau i lefel mor isel ag y bo'n rhesymol ymarferol.

4. Cyfnod y Cynllun

Mae'r Cynllun Diogelwch Morwrol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2026 a 28 Chwefror 2029. Mae'n cael ei adrodd yn flynyddol ac yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

5. Amcanion y Cynllun Diogelwch Morol

Categori	Amcan	Targed/Mesur
----------	-------	--------------

1. Deiliad Dyletswydd	1a. Sicrhau bod Deilydd Dyletswydd wedi derbyn hyfforddiant ar eu rôl a'u cyfrifoldeb o dan y Cod yn ystod y tair blynedd diwethaf	100% wedi'i hyfforddi
	1b. Deilydd Dyletswydd i fod wedi mynd ar daith weithredol o amgylch pob un o'r 4 Harbwr Cyngor Gwynedd yn ystod y tair blynedd	100% o'r ymweliadau a gynhaliwyd
2. Person Dynodedig	2a. Penodi Person Dynodedig annibynnol	Contract ar waith
	2b. Cyfathrebu agored rhwng y Person Dynodedig a'r Deiliad Dyletswydd.	Trafodaethau yn ôl yr angen o leiaf bob blwyddyn Archwiliad llawn bob tair blynedd
3. Deddfwriaeth	3.a Adolygu pwerau statudol ar gyfer cydymffurfio â PMSC	Bob 3 blynedd
4. Dyletswyddau a Phwerau	4a. Cynnal mynediad cyfreithlon o dan Ddyletswydd Porthladd Agored	Harbwr Agored
	4b. Penodi Harbwrfeistri cymwys ar gyfer pob Harbwr	Penodiadau wedi'u cadarnhau; Dirprwyo wedi'i ddogfennu
	4c. Gorfodi Is-ddeddfau a Chyfarwyddiadau	Is-ddeddfau yn cael eu hadolygu bob 3 blynedd; Cyfarwyddiadau wedi'u cyhoeddi a'u cofnodi
	4d. Trwyddedu cychod teithwyr a meistri	Ceisiadau wedi'u prosesu mewn 28 diwrnod; Gwiriadau cydymffurfio blynyddol wedi'u cwblhau
5. Asesiad Risg	5a. Cynnal asesiadau risg morol	100% yn y dyddiad
	5b. Hysbysu MAIB am ddigwyddiadau y gellir eu hadrodd o fewn 24 awr	100% o fewn 24 awr
	5c. Digwyddiadau wedi'u cofnodi a'u hymchwilio (os oes angen) o fewn yr amserlen y cytunwyd arno.	Mân: 1 wythnos; Mawr: 1 mis

6. System Rheoli Diogelwch Morwrol (MSMS)	6a. Archwilio MSMS a chyflwyno datganiad MCA	Archwiliad PMSC mewnol blynyddol; Datganiad archwilio allanol a chydymffurfio 3 blynedd
	6b. Cynnal polisiau Morwrol a chanllaw i weithredu MSMS ar gyfer yr harbwr.	Adolygir yn flynyddol
7. Adolygu ac Archwilio	7a. Adrodd mesuryddion perfformiad i gyfarfod herio perfformiad yr Adran	Chwarterol
	7b. Cynnal a phrofi cynlluniau argyfwng.	Adolygwyd yn flynyddol, ac ymarferion trwy gydol y flwyddyn wedi'u cofnodi.
	7c. Archwiliad mewnol ac allanol	Archwiliad PMSC mewnol blynyddol; Archwiliad allanol 3 blynedd
8. Cymhwysedd	8a. Penodi staff gymwys, profiadol a chymwysedig (SQEP)	SQEP a gyflogir Disgrifiadau swydd a manylebau person yn cael eu hadolygu'n flynyddol 100% o'r hyfforddiant gorfodol wedi'i gwblhau
9. Cynllun	9a. Cyhoeddi Cynllun Diogelwch Morol (y cynllun hwn)	Cyhoeddir 3 blynedd
	9b. Adolygu'r cynllun blaenorol a Pherfformiad Cyngor Gwynedd yn erbyn y cynllun diwethaf	Cynllun yn cael ei gyhoeddi bob 3 blynedd
10. Dyletswydd Cadwraeth	10a. Cynnal cyfleusterau morwrol	Cynnal a chadw wedi'i gynllunio; archwiliadau wedi'u cofnodi
	10b. Cynnal cymhorthion mordwyo a marcio sianeli	Dros gyfnod o 3 blynedd i fod dros 97%
	10c. Rhannu data hydrograffig a diweddariadau	Anfon data at UKHO; Cyhoeddi hysbysiadau a diweddariadau'r wefan
	10d. Rheoli llongddrylliadau a cychod wedi'u gadael	Risgiau a aseswyd; camau a gymerwyd; cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen
	10e. Sicrhau bod gweithgareddau sy'n digwydd yn yr harbwr yn cydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol a thrwyddedu.	Adolygir yn flynyddol

